| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Y Gadair Goch |
| Disgrifiad: | Mae'r dysgwyr yn cymryd tro i chwarae rhan Dylan Thomas yn y gadair goch tra bydd y dysgwyr eraill yn holi cwestiynau iddo yn Gymraeg (gwers ail-iaith). |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 Uchaf |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | amh. |
| Testun Dylan Thomas | amh. |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Bwrdd gwyn i ddangos gwefan Hwb<br>• http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/ngfl/wsl/bdag/chwaraeonahamdden-de/apps/simple-projector/index.html<br>• Taflen Geirfa Ddefnyddiol |
| Trefn addysgu a awgrymir: | • Esboniwch fod Dylan Thomas yn dwlu ar ddarllen ac ysgrifennu ond nad oedd yn mwynhau chwaraeon, er iddo ennill ras redeg unwaith. Gallwch gyfeirio at y poster yn adran Cyfathrebu Ehangach y wefan: (http://www.rockandrollpoet.co.uk/docs/ca2/adnoddau/KS2_WiderCommunication3_CYM_FINAL[1].pdf )<br>• Cyfeiriwch y dysgwyr at wefan Hwb sy'n dangos gweithgareddau chwaraeon drwy fynd at y tab 'Gweithgaredd 2' (http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/ngfl/wsl/bdag/chwaraeonahamdden-de/apps/simple-projector/index.html )<br>• Gofynnwch i'r dysgwyr ddweud enwau'r gweithgareddau.<br>• Driliwch y dysgwyr gyda'r ffurfiau "Wyt ti'n hoffi ...? "Ydw. Dw i'n hoffi ..." neu "Nac ydw. Dydw i ddim yn hoffi..." gan ddefnyddio'r chwaraeon o dan sylw.<br>• Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau gan holi ei gilydd pa chwaraeon maen nhw'n eu hoffi.<br>• Wedyn fel dosbarth, dewiswch un dysgwr i fod yn Dylan Thomas. Mae'r dysgwyr eraill yn holi cwestiynau iddo am yr hyn mae'n ei hoffi a'r hyn nad yw'n ei hoffi. Mae'n rhaid i'r dysgwr ymateb fel y maen nhw'n meddwl y byddai Dylan Thomas wedi ymateb. |
| Gweithgareddau estyn: | Gellir estyn yr eirfa drwy ddefnyddio'r ffurfiau canlynol<br><br>• Rwy'n casáu<br>• Rwy'n dwlu ar<br>• Mae'n well gen i<br><br>Gellir estyn y gweithgaredd ymhellach drwy gael y dysgwyr i esbonio pam maen nhw'n hoffi gweithgaredd penodol, e.e.<br><br>• Rwy'n hoffi chwarae pêl-droed achos mae'n hwyl. |

| | |
|---|---|
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | amh. |